**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi

9 Hydref 2023

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25**

Annwyl Vaughan

Hoffem gael gwybodaeth ysgrifenedig i gefnogi ein gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25. Mae'r atodiad i'r llythyr hwn yn nodi'n fanwl y wybodaeth yr hoffem ei chael.

Byddwn yn ddiolchgar o gael y wybodaeth ysgrifenedig erbyn 19 Rhagfyr 2023 fan bellaf. Nodaf fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ar 19 Rhagfyr 2023. Er ein bod fel arfer yn gofyn am y wybodaeth ysgrifenedig ychydig ddyddiau ar ôl cyhoeddi'r gyllideb ddrafft, oherwydd dyddiad cyhoeddi arfaethedig y gyllideb ddrafft, rydym yn gofyn am y wybodaeth hon ar yr un diwrnod. Er mwyn helpu i liniaru rhai o'r problemau wrth baratoi'r dystiolaeth ysgrifenedig a rhoi po fwyaf o amser â phosibl i chi baratoi'r cyflwyniad, rydym yn anfon ein cais yn gynharach yn nhymor yr hydref. Cysylltwch â'm clercod os ydych yn pryderu na fyddwch yn gallu anfon y wybodaeth erbyn y dyddiad cau arfaethedig o ystyried amserlen y gyllideb.

O ystyried y bydd gan bwyllgorau mewn rhai o'r meysydd a restrir yn yr atodiad i'r llythyr hwn ddiddordeb hefyd, rydw i wedi anfon copi at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir

Jayne Bryant AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Atodiad A: Cais i Weinidog yr Economi ynghylch craffu ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

## Darpariaeth addysg ôl-16

- Manylion cyllid o Brif Grŵp Gwariant yr Economi sy'n cyfrannu at ddarparu cyngor gyrfaoedd, gan gynnwys i Gyrfa Cymru.
- Manylion cyllido'r Cyfrif Dysgu Personol.
- Manylion cyllid ar gyfer y rhaglen brentisiaethau gan gynnwys datblygu fframweithiau prentisiaeth newydd ac adolygiadau o fframweithiau prentisiaeth presennol.

## Gwaith ieuenctid a chyflogadwyedd

- Manylion ynghylch sut mae Prif Grŵp Gwariant yr Economi yn cefnogi gwasanaethau ieuenctid statudol a gwirfoddol a'r ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer bodloni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu o ran cryfhau gwasanaethau ieuenctid.
- Manylion ynghylch sut mae Prif Grŵp Gwariant yr Economi yn cefnogi Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru a gwaith y Bwrdd Gweithredu.

## Y Warant i Bobl Ifanc

- Manylion am ddarpariaeth y gyllideb o'r Prif Grŵp Gwariant yr Economi sy'n cyfrannu at y Warant i Bobl Ifanc.

## Arall

- Unrhyw fanylion eraill sydd, yn eich barn chi, yn berthnasol i waith craffu'r Pwyllgor hwn ar y Gyllideb Ddrafft.